Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Datganiad i'r Wasg

Darlith Goffa Hedley Gibbard

Deddfwriaeth Ddwyieithog, Cyfreithwyr a Chyfieithwyr

Yr Athro Thomas Glyn Watkin
Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru

Prynhawn Mawrth yr Eisteddfod, am 2.45,
ym Mhabell y Cymdeithasau

Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru, yr Athro Thomas Glyn Watkin, fydd yn traddodi Darlith Goffa Hedley Gibbard eleni. Trefnir y ddarlith gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Yn ei ddarlith, 'Deddfwriaeth Ddwyieithog, Cyfreithwyr a Chyfieithwyr', bydd yr Athro Thomas Glyn Watkin yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cyfreithwyr a chyfieithwyr Cymru yn sgil y pwerau newydd sydd gan y Cynulliad i ddeddfu trwy Fesurau dwyieithog. Bydd yn rhannu gwybodaeth am ei ymweliadau â chyfreithwyr a chyfieithwyr ledled Cymru sy'n ymgymryd â gwaith cyfreithiol dwyieithog. Bydd hefyd yn awgrymu dulliau o ddarparu a pharatoi ar gyfer y math yma o waith yn y dyfodol.

Ym mis Ebrill 2007, penodwyd yr Athro Thomas Glyn Watkin yn Brif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru. Ganddo ef mae'r cyfrifoldeb dros ddrafftio rhaglen ddeddfwriaethol - y Mesurau a'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol - Llywodraeth Cynulliad Cymru.

"Rydyn ni'n arbennig o falch o groesawu'r Athro Thomas Glyn Watkin atom ar adeg mor nodedig yn natblygiad dwyieithrwydd yng Nghymru," meddai Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Cynhelir Darlith Goffa Hedley Gibbard am 2.45 brynhawn dydd Mawrth, 5 Awst, ym Mhabell y Cymdeithasau.

- **I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - 07872 102944**

- **Mae stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - rhif 616-617 - gyferbyn â Theatr y Maes a Bant a la Cart**

English copy overleaf . . ./